



Ysgol Dyffryn Nantlle

Pennaeth (*Headteacher*):

Alwen Pennant Watkin, B.A.

Ffordd y Brenin, Pen-y-groes,
Gwynedd. LL54 6AA.

☎ 01286 880 345 ☎ 01286 881 953

swyddfa@ydn.gwynedd.sch.uk

<http://moodle.ydn.gwynedd.sch.uk>

<http://www.ysgoldyffrynnantlle.org>

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Hoffwn eich diweddarau hefo'r sefyllfa ail-agor ysgolion. Mae hyn yn gyfnod heriol i bawb a dwi'n ymwybodol fod sawl holiadur wedi ei anfon atoch yn gofyn a fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol/gofal heb lawer o wybodaeth am drefniadau ayyb.

Pwrpas y dair wythnos nesaf o'r 29ain o Fehefin yw:

- 1) Dod i'r ysgol - disgyblion i ymgysylltu â staff ac i staff wirio lles y disgyblion, mynediad at ddyfeisiau TGCh a symud ymlaen gyda'u dysgu.
- 2) Dal i fyny - cefnogaeth ar les a sgiliau craidd, parhau hefo dysgu o bell a chyfle i ddal i fyny hefo'u cyfoedion
- 3) Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi - cael athrawon a phlant yn barod ar gyfer yr 'normal newydd' yn yr Hydref.

Mae'r wybodaeth gychwynnol gawsom o holiadur Cyngor Gwynedd wedi bod o gymorth wrth i ni, fel dalgylch, i baratoi ar gyfer ail agor. Fel y gallwch ddychmygu, mae ail agor ysgolion hefo cyfyngiadau pellhad cymdeithasol yn heriol iawn. I sicrhau diogelwch bob plentyn a staff bydd rhaid i ni gadw at reolau cadarn megis cyfyngu nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol ar unrhyw adeg.

Er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn cael mynediad i'r ysgol a chael 'dal i fyny' hefo'r athrawon a'u cyfoedion rydym yn bwriadu agor am ddiwrnod llawn. Bydd hyn yn sicrhau tegwch i bob plentyn cwrdd â chanllawiau'r Llywodraeth, sicrhau amser digonol i'r athrawon paratoi tasgau gweithio o bell a sicrhau cyfnod digonol i'r ysgol cael ei lanhau. Isod bydd trefniadau'r dosbarthiadau – Cewch fwy o fanylion yn y dyfodol agos.

Dyddiad yr wythnos	Blwyddyn
Dydd Llun	Blwyddyn 7
Dydd Mawrth	Blwyddyn 8
Dydd Mercher	Blwyddyn 9
Dydd Iau	Blwyddyn 10
Dydd Gwener	Blwyddyn 12

Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn agored i blant 'Gweithwyr Allweddol' o 8y.b – 5y.p drwy'r wythnos. Mae'r gwasanaeth yna dim ond os na ellir gofalu am blant yn ddiogel gartref..

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i ni i gyd.

Cadwch yn ddiogel.

Yn gywir,





Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai ddysgwyr ddod i'r ysgol os ydynt yn teimlo'n sâl, os oes ganddynt, neu yn byw gyda rhywun, sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 dros y 14 diwrnod diwethaf.

GWISG YSGOL	OFFER PERSONOL	DECHRAU/DIWEDD Y DYDD	EGWYL/CINIO
<p>Dylai disgyblion fynychu gyda crys-T a siwmpwr ysgol.</p> <p>Bydd caniatad i wisgo trowsus ac esgidiau addas ar gyfer gweithgareddau awyr agored, yn ystod y cyfnod yma.</p>	<p>Bydd angen i blant ddod ag offer ysgol eu hunain i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw offer ysgrifennu a/neu drydanol, e.e. glianiadur neu dabled, er mwyn cwblhau gwaith.</p> <p>Ni fydd caniatad i rannu offer.</p>	<p>Bydd gan grwpiau amseroedd cychwyn a gorffen amrywiol. Bydd hyn yn lleihau y niferoedd sy'n cyrraedd a gadael yr un adeg.</p> <p>Ni fydd caniatad i rieni nag ymwelwyr ddod ar safle'r ysgol.</p> <p>Bydd cadarnhad o'r amseroedd yn cael ei rannu cyn gynted a phosibl.</p>	<p>Ni fydd ffreutur yr ysgol yn agored, mae gofyn i bob plentyn ddod a bocs bwyd eu hunain a mynd a'u sbwriel adref gyda nhw.</p> <p>Ni fydd caniatad i rannu bwyd.</p> <p>Bydd amseroedd egwyl a chinio wedi'u stagro.</p>
PELLTER CYMDEITHASOL			
<p>Bydd sylw penodol i bellter cymdeithasol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mi fydd yn hanfodol i ddisgyblion ddilyn Rheolau Pellter Cymdeithasol ac Ymddygiad yr ysgol o dan amgylchiadau COVID-19.</p>	TREFN Y DYDD		
<p>BYSIAU</p> <p>Bydd gofyn i'r disgyblion ddilyn canllawiau Cyngor Gwynedd wrth deithio ar fysiau'r ysgol.</p> <p>Bydd pob disgybl yn derbyn sedd wedi ei glustnodi ar eu cyfer gan y Cyngor.</p> <p>Mi fydd yn hanfodol i ddisgyblion ddilyn Rheolau Pellter Cymdeithasol COVID-19.</p>	GOLCHI DWYLO		
<p>GLANHAU</p> <p>Bydd yr ysgol yn cael ei glanhau yn ystod y dydd gan lanhawyr a fydd wedi eu hyfforddi'n addas.</p> <p>Bydd disgywl i'r disgyblion gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn cael ei gadw mor lân a phosib.</p> <p>Bydd offer glanhau addas ar gael.</p>	UNRHYW SALWCH		
<p>TOILEDAU</p> <p>Bydd disgyblion yn defnyddio'r toiledau un ar y tro.</p> <p>Bydd dŵr a sebon ar gael ymhob toiled bydd disgywl i'r disgyblion eu defnyddio.</p> <p>Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn rheolaidd yn unol â pholisi'r awdurdod.</p>	<p>Os bydd plentyn yn mynd yn sâl yn yr ysgol, bydd disgywl i rieni gasglu eu plentyn o'r ysgol, ni fyddwn yn darparu cludiant.</p> <p>Fe fydd staff yr ysgol yn darparu cymorth cyntaf yn y drefn arferol, fodd bynnag byddant yn gwisgo offer amddiffyn pwrpas (PPE).</p> <p>Rhif Ffôn yr ysgol: 01286 880345</p> <p>e-bost: pennaeth@ydn.gwynedd.sch.uk</p> <p>Mae croeso i chi hefyd gysylltu'n uniongyrchol â'r Pennaethiaid Blwyddyn</p>		